



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**BIL ADDYSG BELLACH AC UWCH  
(LLYWODRAETHU A GWYBODAETH)  
(CYMRU)**

Memorandwm Esboniadol  
yn ymgorffori'r Aseiad Effaith  
Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

Ebrill 2013

## **Memorandwm Esboniadol i Fil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 29 Ebrill 2013, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Leighton Andrews AC**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

29 Ebrill 2013

# Cynnwys

## RHAN 1

1. Disgrifiad	3
2. Y Cefndir Deddfwriaethol	4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	5
4. Ymgynghori	12
5. P er i wneud is-ddeddfwriaeth	14
6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol	16

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Yr Opsiynau	17
8. Costau a manteision	18
9. Aseiad o'r gystadleuaeth	33
10. Adolygu ar ôl gweithredu	34

## ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

## 1. Disgrifiad

1. Nod Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd.
2. Mae'r Bil hefyd yn rhoi effaith i bolisi Llywodraeth Cymru ar ganiatáu i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi rannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr gyda Gweinidogion Cymru a chydag unrhyw un neu rai y mae Gweinidogion Cymru yn dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddynt. Mae'r porth rhannu data yn rhan annatod o brosiect i foderneiddio'r gwasanaeth a gynigir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, gan symleiddio'r gwasanaeth hwnnw a'i wneud yn fwy effeithlon.
3. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

*“Yn fy marn i, cafodd sylw dyledus ei roi, yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu darpariaethau Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)”.*

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth ym Mil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth (Cymru)). Nodir darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn adran 108 ac Atodlen 7. Mae Paragraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "Addysg a Hyfforddiant" a atgynhychir isod:

### ***Education and training***

*5. Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.*

*Exception—*

*Research Council.*

5. Nid oes unrhyw un neu rai o ddarpariaethau Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn dod o dan unrhyw un neu rai o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nac yn gymwys fel arall o ran Cymru nac yn rhoi, gosod, addasu neu'n dileu (neu'n rhoi p er i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru; nid ydynt ychwaith yn torri unrhyw gyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7, gan ystyried unrhyw eithriad i'r Cyfyngiadau hynny sydd wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

### 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Nod Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) ('y Bil') yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, yn ogystal â chaniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi rannu gyda Gweinidogion Cymru ddata sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr.

#### Sefydliadau Addysg Bellach

7. Nod y Bil yw newid y fframwaith statudol presennol er mwyn dileu rheolaethau sy'n cael eu harfer gan Weinidogion Cymru dros Sefydliadau Addysg Bellach. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod aeddfedrwydd y sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru ac mae wedi dod i'r casgliad mae'r sector ei hun sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylid diwallu anghenion ei ddysgwyr a'i gymunedau lleol.
8. Cafodd Sefydliadau Addysg Bellach eu sefydlu ym 1993 a'u dosbarthu at ddibenion cyfrifon gwladol yn "Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd" (NPISH). At ddibenion cyfrifon gwladol, mae NPISH yn rhan o'r sector preifat ac nid yw'n ofynnol o dan y dosbarthiad hwn i gyfrifon colegau gael eu cyfuno â chyfrifon y llywodraeth. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) y byddai'n ailddosbarthu colegau a'u gwneud yn rhan o'r llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifon gwladol.
9. Wrth benderfynu ar sut i ddosbarthu cyrff at ddibenion cyfrifon gwladol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn edrych ar amryw o ddangosyddion rheolaeth, gan gynnwys:
  - y gallu i gau corff;
  - y gallu i arfer rheolaeth ariannol;
  - y gallu i newid cyfansoddiad corff neu i roi fetu ar newidiadau i'w gyfansoddiad;
  - y gallu i benderfynu ar y mathau o drafodion ariannol y caiff corff ymgymryd â hwy, neu'r gallu i gyfyngu arnynt.
10. Roedd penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a'u gwneud yn rhan o'r llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifon gwladol yn ganlyniad i amryfal reolaethau statudol y mae Gweinidogion Cymru yn eu harfer dros Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Dyma rai o'r rheolaethau presennol a oedd yn berthnasol i benderfyniad yr ONS:
  - ni chaiff Sefydliadau Addysg Bellach fenthycu arian heb gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru yn gyntaf;
  - y p e r i addasu offeryn neu erthyglau llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach neu i gyflwyno rhai newydd yn eu lle;
  - ni chaiff Sefydliad Addysg Bellach weithredu drwy is-gorff.

11. Cafodd y penderfyniad i ailddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach ei wneud yn un ôl-weithredol, gan ddod yn gymwys o'r dyddiad y sefydlwyd Sefydliadau Addysg Bellach.
12. Mae'r ffaith bod Sefydliadau Addysg Bellach wedi cael eu hailddosbarthu'n gyrff sector cyhoeddus sy'n rhan o'r llywodraeth ganolog yn cael effaith negyddol ar y sector AB yng Nghymru oherwydd bydd yn arwain at newidiadau i'r modd y caiff gwybodaeth ariannol ei chasglu oddi wrth golegau a'i monitro. Bydd yn effeithio hefyd ar sut y mae Sefydliadau Addysg Bellach yn rheoli eu materion mewnol eu hunain. Byddai gan y newidiadau hyn gryn oblygiadau i Sefydliadau Addysg Bellach, gan gynnwys:

byddai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gan golegau yn cael ei gyfrif yn rhan o gronfeydd Llywodraeth Cymru;  
ni fyddai Sefydliadau Addysg Bellach yn gallu cadw arian dros ben i ddatblygu cronfeydd wrth gefn i dalu am brosiectau yn y dyfodol;  
byddai'n rhaid iddynt fodloni gofynion ariannol a gofynion cyfrifyddu ychwanegol.

13. Nod y Bil yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd.

*Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – Dolen Rhannu Data er mwyn gwirio incwm aelwydydd*

14. Un o amcanion y Bil yw galluogi Gweinidogion Cymru, o dan adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i ddirprwyo'n flynyddol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr y swyddogaethau hynny sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid Cyllid Myfyrrwyr Cymru.
15. Y bwriad o fis Chwefror 2014 ymlaen yw trosglwyddo'r system ar gyfer penderfynu pwy sy'n gymwys i gael cymorth ariannol, yr amodau cymwys i gael benthyciadau at gostau byw, cyfrifo grantiau, a chymorth ychwanegol ar gyfer myfyrrwyr anabl, a myfyrrwyr o deuluoedd incwm isel neu sydd a chyfrifoldebau gofal plant, oddi wrth yr awdurdodau lleol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, a fydd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru.
16. Ar hyn o bryd, mae adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn darparu mai dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i'r rheini y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dirprwyo neu drosglwyddo swyddogaethau penodol iddynt, y caiff Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddarparu data sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun benthyciadau i fyfyrrwyr. Nid yw Gweinidogion Cymru nac ychwaith y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, fel y mae'n ymwneud â Chymru, yn perthyn i'r categorïau hynny. Bydd diwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru er mwyn galluogi neu gynorthwyo Gweinidogion Cymru i arfer unrhyw swyddogaethau mewn cysylltiad â Rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

## Ar bwy y mae'r Bil yn effeithio?

### *Corfforaethau Addysg Bellach a Sefydliadau Dynodedig yng Nghymru*

17. Creodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 Gorfforaethau Addysg Bellach, pob un ohonynt â chorff llywodraethu sy'n pennu natur addysgol a chenhadaeth y coleg ac sy'n sicrhau ffyniant cyffredinol a solfedd ariannol y coleg. Cafodd sefydliadau dynodedig eu creu o dan y ddeddf honno hefyd.
18. Mae 14 o Gorfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru ar hyn o bryd<sup>1</sup> ynghyd â phedwar sefydliad dynodedig<sup>2</sup>. Gyda'i gilydd, fe'u gelwir yn Sefydliadau Addysg Bellach.
19. Pan fydd cwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gwneud cais am gyllid myfyrwyr sy'n dibynnu ar brawf modd, bydd incwm yr aelwyd yn cael ei wirio gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am incwm noddwyr (y rhieni fel arfer) yr ymgeiswyr. Mae hon yn broses awtomatig ac ni fydd yn ofynnol bellach i gwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru gyflwyno tystiolaeth ar bapur am incwm yr aelwyd.

### **Amcanion**

20. Amcan Llywodraeth Cymru o ran polisi yw sicrhau bod gan Sefydliadau Addysg Bellach yr hyblygrwydd a'r rhyddid i wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflwyno dysgu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a'u cymunedau lleol. Er mwyn cyrraedd y nod yn hyn o beth, rhaid rhyddhau Sefydliadau Addysg Bellach o'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn cael eu dosbarthu'n gyrrff cyhoeddus sy'n rhan o'r llywodraeth ganolog. Mae Gweinidogion Cymru am wneud cais i ailddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru yn NPISH unwaith yn rhagor at ddibenion cyfrifon gwladol.
21. Er mwyn i Lywodraeth Cymru wneud cais i wrthdroi dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r Bil am newid y ddeddfwriaeth sydd, ar hyn o bryd, yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod rheolaethau dros Sefydliadau Addysg Bellach neu i gyfyngu ar eu gweithgareddau. Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Bil yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o reolaeth sy'n dod o dan y dangosyddion rheolaeth y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfeirio atynt wrth ddsbarthu cyrrff at ddibenion cyfrifol gwladol.
22. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw newid i statws cyfreithiol Sefydliadau Addysg Bellach nac i brif bwerau Sefydliadau Addysg Bellach i ddarparu addysg bellach, addysg uwch ac (o fewn rhai cyfyngiadau) addysg uwchradd.
23. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng y newidiadau technegol a gynigir yn y Bil a'r angen i ddiogelu arian cyhoeddus, budd y cyhoedd, a dysgwyr. Er enghraifft, mae'r Bil yn rhoi rhagor

<sup>1</sup>Nid yw'r rhain yn cynnwys Coleg Merthyr Tudful, Prifysgol Morgannwg, a wnaeth beidio â bod yn gorfforaeth addysg bellach yn 2006

<sup>2</sup>CAG y Gogledd Coleg Harlech, Coleg Cymunedol YMCA Cymru, CAG De Cymru a Choleg Catholig Dewi Sant



o b er i Weinidogion Cymru ymyrryd os yw corff llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach yn camreoli ei faterion ei hun, yn methu cyflawni dyletswydd statudol, neu'n gweithredu mewn modd afresymol, yn perfformio cryn dipyn yn is neu'n rhoi safon annerbyniol o addysg neu hyfforddiant. Bydd Sefydliadau Addysg Bellach yn parhau i fod yn atebol am y modd y byddant yn defnyddio arian cyhoeddus.

24. Mae'r newidiadau a wneir gan y Bil yn cynnwys:

*Offeryn ac erthyglau llywodraethu Corfforaeth Addysg Bellach:* Bydd Corfforaeth Addysg Bellach yn gallu addasu ei hofferyn a'i herthyglau llywodraethu neu gyflwyno rhai newydd yn eu lle ond bydd yn rhaid i'r offeryn a'r erthyglau llywodraethu gynnwys gofynion sylfaenol.

*Diddymu corfforaethau:* Bydd Corfforaeth Addysg Bellach yn cael y p er i benderfynu diddymu ei hun, a'r p er i drosglwyddo ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i gorff arall cyn iddi gael ei diddymu. Er mwyn diogelu eiddo a hawliau Corfforaeth Addysg Bellach adeg ei diddymu, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Reoliadau ragnodi'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi, y gofynion o ran ymgynghori ac i ba gyrrff y ceir trosglwyddo eiddo a hawliau.

*Benthyca:* Bydd Corfforaeth Addysg Bellach yn gallu benthyca heb gael caniatâd Gweinidogion Cymru ymlaen llaw.

*P er i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach:* Bydd y p er sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu yn cael ei ddileu.

*Is-gyrrff:* Bydd Corfforaeth Addysg Bellach yn gallu gweithredu drwy is-gorff (megis cwmni cyfyngedig neu sefydliad elusennol corfforedig), heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.

*Rhagor o bwerau i ymyrryd:* Yn ogystal â'r pwerau ymyrryd sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd, mae'r Bil yn rhoi'r p er iddynt gyfarwyddo'r corff llywodraethu i benderfynu ei ddiddymu ei hun.

25. Bydd y Bil hefyd yn gwneud newidiadau eraill yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i Sefydliadau Addysg Bellach; bydd yn diddymu'r gofyniad i Weinidogion Cymru fod â pholisi ymyrryd; yn diddymu'r ddyletswydd ar Sefydliadau Addysg Bellach i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr; ac yn dileu'r p er lle gall Gweinidogion Cymru, drwy gyfrwng Rheoliadau, gyfyngu ar ddarparu Addysg Uwch mewn Sefydliadau Addysg Bellach.

26. Bydd y gwasanaeth modern, ar ei newydd wedd, yn gwneud y newidiadau allweddol a ganlyn er mwyn sicrhau bod Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gynaliadwy ac yn effeithlon:

cyflwyno system a fydd, yn bennaf, yn system ar-lein;

awtomeiddio'r broses drwy gyflwyno ffyrdd o rannu data, gyda dolenni at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi;  
cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyson i'w gwsmeriaid;  
safoni prosesau gweinyddol a phrosesau ymgeisio ac asesu, cyflwyno gwelliannau o ran terfynau amser ac amserlenni, ac o ran bod yn fwy cynhyrchiol;  
gwella cywirdeb a lleihau'r posibilrwydd o dwyll.

### **Risgiau/peryglon os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud**

27. Os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud, ni fydd Llywodraeth Cymru yn llwyddo yn ei chais i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wrthdroi'r penderfyniad i ailddosbarthu colegau AB yn gyrrff sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifon gwladol. Pe na fyddai Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu hailddosbarthu, byddai hynny'n cael effaith negyddol ar gyllideb Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru a gallai olygu na fyddai gan y sector bellach unrhyw gymhelliant i ychwanegu at ei ffrydiau ariannu drwy droi at ffynonellau heblaw cyllid y llywodraeth, nac ychwaith i reoli'r colegau mewn modd mor effeithlon ag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd.
28. Yn sgil newid y ffordd y mae gwybodaeth ariannol yn cael ei chasglu a'i monitro, mae'n debygol y bydd angen i Sefydliadau Addysg Bellach a Llywodraeth Cymru ysgwyddo costau ychwanegol (gweler paragraffau 61-65). O ran beichiau ychwanegol i Sefydliadau Addysg Bellach a Llywodraeth Cymru, byddai'r canlynol yn eu plith:

byddai angen i Sefydliadau Addysg Bellach gwblhau pecyn cyfuno, a elwir yn 'becyn C', sef ffurflen gynhwysfawr sy'n nodi gwybodaeth ariannol sefydliad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth ac sy'n golygu bod modd nodi a dileu unrhyw drafodion rhwng cyrrff sy'n cael eu cyfuno. Byddai'r pecynnau C yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a byddai'n rhaid iddynt gael eu harchwilio;

byddai'n rhaid i'w blynyddoedd ariannol gyd-fynd â blynyddoedd ariannol y sector cyhoeddus, hy o 1 Ebrill i 31 Mawrth;

byddai'n rhaid i gyfrifon gael eu paratoi o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ynghyd â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (safonau cyfrifyddu), pe byddai'r cyrrff yn cyfuno cyn 2015/16;

byddai effeithiau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru ynghlwm wrth asesu'r effeithiau cyllidebol yn ystod y flwyddyn (yn ychwanegol at y 'pecynnau C' y sonnir amdanynt uchod);

29. Byddai gan y newidiadau hyn gryn oblygiadau i Sefydliadau Addysg Bellach, gan gynnwys:

byddai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gan Sefydliadau Addysg Bellach yn dod yn rhan o gronfeydd Llywodraeth Cymru;

ni fyddai Sefydliadau Addysg Bellach yn gallu cadw'r arian dros ben i ddatblygu cronfeydd wrth gefn i dalu am brosiectau yn y dyfodol, er enghraifft prosiectau cyfalaf neu ailstrwythuro.

30. Pe na fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, byddai'n rhaid i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ddefnyddio dogfennau papur oddi wrth fyfyrwyr a rhieni i gynnal y gwiriadau ar incwm aelwydydd sy'n gysylltiedig â cheisiadau myfyrwyr am grantiau a benthyciadau. O wirio â llaw, mae'n fwy tebygol na fydd twyll yn cael ei ganfod, ac y bydd myfyrwyr yn cael mwy o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru nag y mae ganddynt yr hawl i'w gael.

### **Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi'r sectorau i weithredu mewn modd mwy effeithiol**

31. Bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach ac yn gwella'u gallu i wneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid diwallu anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau lleol. Bydd y ddeddfwriaeth yn fodd hefyd i sicrhau bod Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu hailddosbarthu. Bydd hynny, yn ei dro, yn fodd i osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio ag aiddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach (a amlinellir uchod).
32. O ran y newidiadau sy'n ymwneud â rhannu data, bydd y gallu i ddefnyddio'r broses sydd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi i Wirio Incwm Aelwydydd yn caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr roi system asesu fwy effeithiol ac effeithlon ar waith. Bydd yn arwain hefyd at system lai llafurddwys a fydd yn fwy effeithiol o ran canfod ac atal twyll, gan gyflymu'r broses ymgeisio i fyfyrwyr yn gyffredinol.
33. Mae'n anodd mesur faint o dwyll sy'n cael ei ganfod ar hyn o bryd o dan system Cyllid Myfyrwyr Lloegr. Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o ba mor effeithiol yw'r lefelau goddefiant o dan broses Cyllid Myfyrwyr Lloegr. Mae'r adroddiad yn dal i fod ar ffurf ddrafft ac ar hyn o bryd, nid yw'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi cytuno â'r cynigion. Fodd bynnag, ar sail y dadansoddiad hwnnw, rydym yn amcangyfrif bod canlyniadau'r gwiriad awtomatig cychwynnol a gynhaliwyd yn Lloegr o incwm aelwydydd yn awgrymu nad yw tua 24% o incwm y noddwyr yn cyfateb yn union, sy'n awgrymu eu bod yn tanddatgan/gorrdatgan incwm. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn ymchwilio i'r anghysonderau hyn drwy broses eithriadau sy'n dechrau drwy gael tystiolaeth ar bapur am y ffigurau incwm yr aelwyd a nodir ar y cais.
34. Pe bai'r un gyfran o noddwyr i'w gweld mewn adroddiadau eithriadau yng Nghymru, gallai hynny fod yn arwydd o lefel uchel o amrywiannau. Byddai'n rhaid wrth gryn dipyn o waith dadansoddi manwl cyn y byddai modd defnyddio'r amrywiannau hynny i nodi faint o geisiadau a allai fod yn rhai twyllodrus, ond, pe byddem, er enghraifft, yn canfod ceisiadau twyllodrus a

fyddai'n arbed 1% o'r gwariant ar Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, sy'n ddibynnol ar brawf modd, byddai Llywodraeth Cymru yn arbed £1.2 miliwn.

### **Rhychwant tiriogaethol**

35. Mae'r Bil yn gymwys i Gymru.

### **Cynllun cyflawni ac amserlen**

36. Mae prif elfennau'r ddeddfwriaeth wedi'u hymgorffori yn y Bil ei hun. Fodd bynnag, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau. Mae crynodeb o'r pwerau hyn i wneud rheoliadau i'w gael ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori ar bolisi'r Rheoliadau yn 2014.

37. Rhagwelir ar hyn o bryd mai dyma fydd y cerrig milltir:

Cyflwyno'r Bil – 29 Ebrill 2014;

Pasio'r Bil, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad – dechrau Rhagfyr 2013;

Cwblhau'r is-ddeddfwriaeth – haf 2014;

Cyflwyno newidiadau ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach – Medi 2014.

38. Ni phenderfynwyd hyd yma ar ddyddiad ar gyfer lansio gwasanaeth cyllid myfyrwyr ar gyfer y DU gyfan ond gallai fod mor gynnar â mis Tachwedd 2013. Hoffai Cymru lansio ar yr un pryd â Llywodraethau eraill y DU. Cynigir bod darpariaethau'r Bil yn cychwyn pan fydd yn cael Cydsyniad Brenhinol (dechrau Ionawr), a hynny er mwyn caniatáu i Gyllid Myfyrwyr Cymru dderbyn a phrosesu ceisiadau oddi wrth fyfyrwyr ar yr un pryd â cheisiadau gan fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU.
39. Ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn lansio gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2014/15. Bydd hynny'n cynnwys lansio'r ddolen rhannu data ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

## 4. Ymgynghori

40. Cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011 i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrllon â'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwnnw, cafodd Papur Gwyn ar y cynigion ar gyfer y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) ei gyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2012 gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Roedd y Papur Gwyn yn gwahodd sylwadau am y cynigion ar gyfer y Bil ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.
41. Gan roi'r sylw dyledus i Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cyhoeddodd yr adran fersiwn o'r Papur Gwyn yn arbennig i bobl ifanc ac a oedd yn cynnwys arolwg byr er mwyn casglu barn y plant a'r bobl ifanc y byddai'r Bil arfaethedig yn effeithio arnynt.
42. Barnwyd mai mân newidiadau technegol oedd y cynigion i rannu data ac, o'r herwydd, ni chawsant eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Bydd y diwygiad arfaethedig yn fodd i sicrhau y bydd gan Weinidogion Cymru yr un swyddogaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yn Lloegr a'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon. Bydd hefyd yn golygu y bydd modd cael gafael ar wybodaeth am incwm aelwydydd er mwyn profi pwy sy'n gymwys i gael cyllid myfyrwyr oddi wrth Lywodraeth Cymru.
43. Ymgynghorwyd yn anffurfiol â Bwrdd Prosiect Moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru ac â'r Bwrdd Prosiect cyffredinol ar Addysg Uwch/Addysg Bellach ynghylch y newidiadau arfaethedig i adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch, Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu cynrychioli ar y byrddau prosiect hynny, ac roedd aelodau'r byrddau oll yn cytuno â'r bwriad i rannu data â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
44. Mae'r Papur Gwyn i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru:  
<http://wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/;jsessionid=1DBD32F FE8EDBD32C2AD5D30E1B18FC7?skip=1&lang=cy>
45. Parhaodd y cyfnod ymgynghori am ddeuddeg wythnos, gan ddod i ben ar 24 Medi 2012. Roedd y Papur Gwyn yn manylu ar y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) ac yn ceisio barn am gynigion y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer cyn y gellir eu gweithredu. O ran Addysg Bellach, nododd y Papur Gwyn gynigion yn y meysydd a ganlyn:

Rhagor o annibyniaeth i Gorfforaethau Addysg Bellach mewn perthynas â'u Hofferyn ac Erthyglau Llywodraethu;

Gallu colegau i ddiddymu eu hunain;

Mwy o ryddid i Gorfforaethau Addysg Bellach fenthyca arian;

Mwy o ryddid i Gorfforaethau Addysg Bellach sefydlu is-gyrff er mwyn cynnal eu busnes;

Pwerau ymyrryd Llywodraeth Cymru.

46. Un o'r cynigion eraill oedd dileu pwerau Gweinidogion Cymru i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu. Roedd y papur hefyd yn nodi bod y cynigion yn ymdrin â'r pwerau allweddol y mae angen eu diwygio fel y bo modd dosbarthu Corfforaethau Addysg Bellach yn NPISH unwaith eto. Roedd yn nodi, yn ogystal, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pwerau a gofynion eraill yn ôl yr angen.
47. Daeth cyfanswm o 52 o ymatebion i law i'r darpariaethau sy'n ymwneud ag Addysg Bellach: 35 o ymatebion oddi wrth sefydliadau, a 17 o ymatebion oddi wrth ddysgwyr a phobl ifanc:

Sector	Ymatebion
Gyrfaoedd	1
Addysg Bellach	8
Addysg Uwch	6
Arall	8
Ysgolion	1
Undebau	11
Plant a Phobl Ifanc	17
<b>Cyfanswm</b>	<b>52</b>

48. Roedd pob dysgwr a pherson ifanc a ymatebodd yn cytuno â bwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil i sicrhau bod gan Gorfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru fwy o ryddid i barhau i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr. Roedd wythdeg dau y cant yn cytuno â'n bwriad i ddefnyddio'r Bil i sicrhau bod gan Gorfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru fwy o ryddid i benderfynu ar eu trefniadau llywodraethu eu hunain.
49. Mae crynodeb o'r ymgynghoriad i'w weld yn:  
<http://wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/;jsessionid=72C8226784D57F23326191918089BEC3?skip=1&lang=cy>

## 5. P er i wneud is-ddeddfwriaeth

50. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae tabl 1 drosodd yn amlinellu'r manylion a ganlyn mewn perthynas â phob darpariaeth:

y person neu'r corff y rhoddir y p er iddo;  
ar ba ffurf y mae'r p er i'w arfer;  
priodoldeb y p er dirprwyedig;  
y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn), os o gwbl, ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Tabl 1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Adran	P er yn cael ei roi i	Ffur	Priodoldeb y p er dirprwyedig	Y weithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
3	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r p er i gorfforaeth addysg bellach benderfynu ei diddymu ei hun yn cael ei ymgorffori yn y Bil ei hun.</p> <p>Ni fydd Rheoliadau a wneir o dan y p er hwn ond yn nodi manylion y drefn y bydd yn rhaid i gorfforaeth addysg bellach ei dilyn cyn gwneud penderfyniad i ddiddymu ei hun ac ond yn rhagnodi'r personau neu'r cyrff y caiff corfforaeth addysg bellach drosglwyddo ei heiddo, ei hawliau neu ei rhwymedigaethau iddynt pan fydd yn cael ei diddymu.</p> <p>Bernir bod Rheoliadau yn briodol oherwydd caiff y p er i wneud cyfraith sylwedd ei arfer drwy'r offeryn hwn.</p>	Negyddol	<p>Wrth ystyried pa weithdrefn fyddai'n briodol, cydnabuwyd bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng craffu gan y Cynulliad; yr amser a dreulir gan y Cynulliad (neu'r pwyllgor); arwyddocâd y darpariaethau yn y Rheoliadau; a gwneud deddfwriaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.</p> <p>Nid yw'r pwerau'n galluogi darpariaeth a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol; nid ydynt yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru; nid ydynt yn cynyddu nac yn gosod trethi neu unrhyw feichiau ariannol sylweddol eraill ar y cyhoedd; nac ychwaith yn creu neu'n rhoi pwerau anarferol.</p> <p>Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi manylion cymharol fân, y mae'n bosibl y bydd gofyn eu newid yn rheolaidd. Cyfyngedig yw'r disgresiwn sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynnwys y darpariaethau.</p> <p>O'r herwydd, bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.</p>



## 6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

51. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil, yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi), ac mae i'w weld ym Mhennod 7. Caiff aseiad o'r costau a'r manteision ei gynnwys ym Mhennod 8. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a allai olygu bod arian yn cael ei wario o Gronfa Gyfunol Cymru.
52. Rhannwyd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn ddwy ran, gan edrych ar i) dosbarthiad Sefydliadau Addysg Bellach a ii) y dull a ddefnyddir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr i wirio incwm aelwydydd.

## **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **7. Yr Opsiynau**

#### ***Dosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach***

##### **Opsiwn 1: Gwneud dim a chadw'r system bresennol**

53. Byddai'r newidiadau yn sgil yr ailddosbarthu (y ceir eu manylion ym Mhennod 8 isod) yn cael llawer o oblygiadau a allai fod yn sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru. Y pwysicaf yn eu plith yw'r effaith negyddol ar gyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru a'r newid yng ngallu Corfforaethau Addysg Bellach i gario arian dros ben ymlaen.

##### **Opsiwn 2: Cyflwyno Cyngor Cyllido**

54. Ailsefydlu cyngor cyllido ar gyfer Addysg Bellach (yn debyg i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch), fel ymgais i wrthdroi'r penderfyniad i ddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yn gyrrff sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifon gwladol. Rhaid rhoi sicrwydd a chyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Dosbarthu i ddangos bod camau allweddol wedi cael eu cymryd i roi mwy o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach gan gadw'r gallu i arfer rhywfaint o reolaeth hyd braich ar eu gweithgarwch.

##### **Opsiwn 3: Cyflwyno Bil Cynulliad**

55. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau angenrheidiol i ddileu llawer o'r rheolaethau sydd gan Weinidogion Cymru dros Sefydliadau Addysg Bellach.

#### ***Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - Gwiriadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr o incwm aelwydydd***

56. O fis Chwefror 2014, caiff y system ar gyfer penderfynu pwy sy'n gymwys i gael cymorth ariannol, yr amodau cymwys i gael benthyciadau at gostau byw, cyfrifo grantiau, a chymorth ychwanegol ar gyfer myfyrrwyr anabl, a myfyrrwyr o deuluoedd incwm isel neu sydd a chyfrifoldebau gofal plant, ei throsglwyddo o ofal yr awdurdodau lleol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Bydd angen i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr sefydlu proses ar gyfer gwirio incwm aelwydydd. O ganlyniad, nid oes opsiwn 'Gwneud Dim'.

##### **Opsiwn 1: Cyflwyno system bapur**

57. Byddai rhaid i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr gynnal gwiriadau papur o incwm aelwydydd gan ddefnyddio dogfennau a ddarperir gan y noddwyr.

##### **Opsiwn 2: Cyflwyno Bil Cynulliad**

58. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr gyflwyno proses wirio awtomatig drwy ddolen â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

## 8. Costau a manteision

59. Mae'r Bennod hon yn cynnwys dadansoddiad o'r costau a'r manteision y manylir arnynt ym Mhennod 7.

### ***Dosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach***

#### **Opsiwn 1: Gwneud dim - cadw'r system bresennol**

60. O ganlyniad i gael eu hailddosbarthu yn rhan o'r Llywodraeth Ganolog at ddibenion cyfrifon gwladol, bydd rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach gwblhau pecynnau cyfuno at ddibenion ymarfer cyfrifon y Llywodraeth Gyfan (y bydd angen eu harchwilio) ac efallai y bydd rhaid i'r sector newid diwedd ei flwyddyn ariannol o 31 Gorffennaf i 31 Mawrth.

61. Os bydd yr ailddosbarthu hwn yn sefyll, caiff effaith yn nhermau amser staff Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei dreulio ar gasglu a threfnu'r datganiadau blynyddol ychwanegol y bydd yn ofynnol i Sefydliadau Addysg Bellach eu cyflwyno ac asesu goblygiadau cyllidebol y flwyddyn:

5 diwrnod o amser 2 gradd E i edrych ar y pecynnau cyfuno	2 x 5 x 4,276/31	£1,379
5 diwrnod o amser 2 gradd E i asesu goblygiadau cyllidebol y flwyddyn	2 x 5 x 4,276/31	£1,379
10 diwrnod o amser gradd F i roi trefn ar y newidiadau	10 x 5,934/31	£1,914

62. Gan hynny, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru fydd bron £4,700 y flwyddyn.

63. Byddai'r gost o gwblhau ac archwilio'r pecynnau cyfuno hefyd yn effeithio ar Sefydliadau Addysg Bellach. Byddai'r gost ychwanegol yn dibynnu ar p'un a fyddai diwedd y flwyddyn yn cael ei newid a p'un a fyddai'r datganiadau yn cael eu harchwilio fel rhan o'r archwiliad diwedd blwyddyn. Gan ragdybio mai 31 Gorffennaf, yn ôl y cynllun, fyddai diwedd y flwyddyn ariannol o hyd, amcangyfrifir y byddai'n costio dros £4,000 y flwyddyn i bob Sefydliad Addysg Bellach. Fe'i cyfrifwyd fel a ganlyn:

4 diwrnod o amser y cyfarwyddwr cyllid i gwblhau pecyn C	4 x (70,000 x 1.4)/365	£1,074
1 wythnos o amser y rheolwr cyllid ar gyfer gwaith cyfrifo	1 x (40,000 x 1.4)/52	£1,077
1 wythnos o amser y cyfarwyddwr cyllid ar gyfer gwaith cyfrifo	1 x (70,000 x 1.4)/52	£1,885

ON Mae hyn yn cynnwys ar gostau o 40%

64. Ar gyfer y 18 o sefydliadau sy'n perthyn i'r sector Addysg Bellach, mae hyn yn golygu cost o £72,648 y flwyddyn.
65. Gan gyfuno costau Llywodraeth Cymru a chostau Sefydliadau Addysg Bellach, cyfanswm cost yr opsiwn hwn yw tua £77,348 y flwyddyn.

### ***Manteision***

66. Byddai Gweinidogion Cymru yn cadw'r rheolaethau sydd ganddynt ar hyn o bryd dros Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Ar hyn o bryd, o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992:

mae'r offeryn ac erthyglau llywodraethu yn cael eu rhagnodi gan Reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a rhaid cael cymeradwyaeth cyn gwneud unrhyw newidiadau;

mae gan Weinidogion Cymru b er i ddiddymu Corfforaeth Addysg Bellach drwy orchymyn a darparu ar gyfer trosglwyddo ei heiddo, hawliau a rhwymedigaethau i gorff arall ag amcanion cyffelyb yn amodol ar ymgynghori â'r gorfforaeth sydd i'w diddymu ac ar gael cydsyniad y corff y mae'r asedau a'r rhwymedigaethau i gael eu trosglwyddo iddo;

rhaid i Gorfforaethau Addysg Bellach gael awdurdod Gweinidogion Cymru cyn gwneud rhai trefniadau benthyca penodol;

mae'r darpariaethau presennol yn atal Corfforaeth Addysg Bellach rhag cael ei harwain gan is-gorff, (megis cwmni cyfyngedig neu sefydliad elusennol corfforedig) heb gael caniatâd Gweinidogion Cymru;

caiff Adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ymwneud â phwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Sefydliadau Addysg Bellach ei diwygio i adlewyrchu'r gofynion isod.

67. At hynny, o dan adran 39 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae gan Weinidogion Cymru b er, ar hyn o bryd, i benodi hyd at ddau aelod ychwanegol i gorfforaeth os bernir bod hynny'n briodol.

### ***Risgiau***

68. I grynhoi, byddai aiddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yn gyrrff sector cyhoeddus yn cael effaith negyddol ar gyllideb AdAS a gallai olygu na fyddai gan y sector unrhyw gymhelliant bellach i ychwanegu at ffrydiau incwm drwy droi at ffynonellau heblaw cyllid y llywodraeth, nac ychwaith i reoli'r Sefydliadau Addysg Bellach mor effeithlon ag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Bydd angen ystyried gyda'r Trysorlys sut yn union y caiff y cyllidebau eu sgorio. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hysgwyddo gan Brif Gr p Gwariant AdAS.

### ***Bron yn arian parod***

69. Ar gyfartaledd, mae 20% o incwm Sefydliadau Addysg Bellach yn dod o ffynonellau ar wahân i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, ffioedd

myfyrwyr, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a mentrau masnachol megis meithrinfeydd a bwytaï hyfforddi. Wrth gael ei gymryd i mewn i gyfrifon Llywodraeth Cymru, byddai'r incwm yn cael ei gyfrif yn rhan o incwm Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, byddai rhaid cynnwys cyfanswm gwariant sefydliad. Mae hyn yn golygu:

- a) byddai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gan Sefydliadau Addysg Bellach yn dod yn rhan o gronfeydd Llywodraeth Cymru a byddai rhaid eu rheoli fel rhan o'r Prif Grŵp Gwariant yn gyffredinol fel unrhyw linell arall yn y gyllideb.
- b) ni fyddai Sefydliadau Addysg Bellach yn gallu cadw'r arian dros ben i ddatblygu cronfeydd ar gyfer talu am brosiectau cyfalaf yn y dyfodol.
- c) byddai unrhyw ddiffygion a ysgwyddir gan Sefydliadau Addysg Bellach yn lleihau cyllidebau AdAS yn ystod y flwyddyn y cânt eu gwneud.

70. Mae arian dros ben/diffygion y sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel a ganlyn<sup>3</sup>:

Blwyddyn	09/10	08/09	07/08	06/07	05/06	04/05
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arian dros ben / (Diffyg)	8,992	(1,090)	1,602	3,750	6,928	1,400

71. Roedd y rhagolygon ariannol a dderbyniwyd oddi wrth y sector yn 2011 yn dangos bod gwerth oddeutu £1.9 miliwn o arian dros ben yn 2011/12 a 2012/13 a disgwyliwyd gweld colled o £1.3 miliwn yn 2013/14. Yn y gorffennol, seiliwyd y rhagolygon ar ragdybio'r sefyllfa waethaf posibl.

72. Er mwyn cadw arian dros ben yn y sector at ddibenion ail-fuddsoddi, er bod anfanteision ynghlwm wrthynt, gellid mynd ar drywydd yr opsiynau canlynol:

- a. Sicrhau bod y sector yn peidio â gwneud elw na cholled bob blwyddyn, er enghraifft, drwy ddefnyddio unrhyw arian dros ben i leihau rhwymedigaethau pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Fodd bynnag, efallai nad hyn o reidrwydd fyddai'r defnydd gorau o gronfeydd ariannol.
- b. Amcangyfrif faint o arian dros ben neu golledion a geir yn ystod y flwyddyn a gwneud cais i drosglwyddo'r gyllideb o 'refeniw i gyllid'. Byddai rhaid dibynnu ar ragolygon Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfer blynyddoedd i ddod er mwyn cynllunio cyllid AdAS ar gyfer rhaglenni cyfalaf. Fodd bynnag, byddai hyn yn creu mwy o ansicrwydd ynglŷn â faint o gyllid a fyddai ar gael.

<sup>3</sup> Derbyniwyd cyfrifon statudol 2010/11 oddi wrth y sector. Fodd bynnag, mae dyddiad cyflwyno'r Cofnodion Cyllid manwl wedi'i ohirio gan fod rhwydwaith y Cyfarwyddwyr Cyllid AB yn adolygu'r fformat ar hyn o bryd, er mwyn gallu defnyddio'r datganiadau at ddibenion meincodi.

- c. Defnyddio'r arian dros ben ar wariant arall yn AdAS, ond gallai hyn olygu na fydd gan y sector unrhyw gymhelliant bellach i sicrhau rheolaeth ariannol dda.
- d. Defnyddio'r ffaith bod diwedd y flwyddyn ariannol yn wahanol i Lywodraeth Cymru ag ydyw i Sefydliadau Addysg Bellach i addasu ar gyfer unrhyw newidiadau bach. Gallai hyn eto olygu na fydd gan y sector unrhyw gymhelliant bellach i sicrhau rheolaeth ariannol dda gan y byddem yn gofyn iddynt neilltuo arian ar gyfer sefyllfa o beidio â gwneud elw na cholled.

### Cyfalaf

73. Byddai cyfanswm gwariant cyfalaf Sefydliad Addysg Bellach yn ystod unrhyw flwyddyn (wedi tynnu unrhyw ad-daliadau o fenthyciadau a grantiau o ffynonellau eraill) yn cyfrif yn erbyn cyllideb cyfalaf AdAS, nid y grant cyfalaf y byddwn yn ei roi iddynt yn unig. O ganlyniad, mae'r materion a ganlyn yn codi:
- a. Mewn gwirionedd, mae'r dull o neilltuo arian gyfystyr â phe byddai AdAS yn rhoi grant 100%.
  - b. Byddai'r gyllideb gyfalaf sydd i'w chael ar gyfer grantiau i ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yn lleihau.
74. Mae'r tabl isod yn dangos y gwariant cyfalaf gan y sector dros y blynyddoedd diwethaf:

Blwyddyn	09/10	08/09	07/08	06/07	05/06	04/05
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciad	3,484	1,504	3,335	1,352	1,535	572
Ad-daliadau	(2,892)	(2,897)	(2,804)	(6,500)	(2,785)	(2,230)
Cronfeydd arian	13,783	12,665	16,747	10,603	12,365	7,281
Effaith net	14,375	11,272	17,278	5,455	11,115	5,623

75. Yn ddiweddar, mae Sefydliadau Addysg Bellach wedi cyflwyno cynlluniau cyfalaf at y dyfodol ac mae'r canlynol wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor yn seiliedig ar AdAS yn cyfrannu grant 50%. Pe byddai rhaid i 100% o'r gost gyfalaf gyfrif yn erbyn y gyllideb gyfalaf, hanner y prosiectau yn unig y gellid eu hariannu:

Blwyddyn	14-15	15-16	16-17
	£'000	£'000	£'000
Cyllid grant Llywodraeth Cymru	13,147	12,231	4,024
Cyfanswm wedi'i sgorio yn erbyn y gyllideb gyfalaf o dan ddsbarthiadau newydd ONS	26,294	24,462	8,048

76. Gellid mynd ar drywydd yr opsiynau canlynol er mwyn negyddu'r effaith a gâi cynnwys gwariant cyfalaf o 100% yn erbyn y gyllideb gyfalaf:

Cytuno â'r Trysorlys ar godi Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cyfalaf Llywodraeth Cymru i'r lefel o wariant a gynlluniwyd gan y Sefydliadau Addysg Bellach. Yn dilyn trafodaethau â swyddogion tîm Rheoli a Chofnodi Cyllidebau Llywodraeth Cymru, yn ôl ein hasesiadau, o ganlyniad i natur dechnegol yr ailddosbarthu, mae yna 50% o gyfle y bydd hwn yn llwyddiant yn y tymor byr. Ar y llaw arall, dim ond 10% o gyfle sydd y bydd hwn yn opsiwn llwyddiannus yn y tymor hir.

Byddai hyn yn seiliedig ar y ddadl y dylid ailosod ein llinellau sylfaen mewn perthynas ag unrhyw effaith a gaiff yr ailddosbarthu, a'r mater pwysicaf fyddai benthyca. Nid oes llawer o bosibilrwydd o ddod i gytundeb ar godi'r cyfalaf yn barhaol, o ganlyniad i agwedd y Trysorlys ar hyn o bryd at fenthyca.

Trafod â thîm Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth Cymru yr hyn sy'n bosibl o fewn terfynau benthyca Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn opsiwn ar gyfer y tymor hir ac yn ddibynnol ar ganlyniad y trafodaethau sy'n parhau â Llywodraeth y DU ar bwerau cyllido a benthyca.

#### *Nad yw'n arian parod*

77. Byddai unrhyw ddibrisiant yn asedau'r sector AB yn cyfrif yn erbyn cyllidebau nad ydynt yn arian parod Llywodraeth Cymru; oddeutu £22 miliwn y flwyddyn. Caiff rhagolygon yn ystod y flwyddyn eu darparu i'r Trysorlys ac mae'n debygol y gellid cynyddu'r gyllideb nad yw'n arian parod i gynnwys y cyfanswm hwn.

#### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

78. Bydd unrhyw newid yn niffygion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (staff nad ydynt yn addysgu) flwyddyn ar ôl blwyddyn yn cael ei gyfrif yn erbyn Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Unwaith yn rhagor, mae rhagolygon yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r Trysorlys yn ystod y flwyddyn ac mae'n debygol y byddai'r gyllideb a roddir yn cael ei chynyddu pe byddai angen. Fodd bynnag, mae'n hynod anodd rhagfynegi'r newidiadau a fydd yn niffygion y cynllun pensiwn gan eu bod yn cael eu cyfrifo gan actiwariad ar ddiwedd bob blwyddyn, ar sail rhagdybiaethau gan gynnwys disgwyliad oes, chwyddiant ac amodau'r farchnad.

#### **Opsiwn 2: Cyflwyno Cyngor Cyllido**

79. Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae Undebau wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ailsefydlu cyngor cyllido ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (a fydd yn debyg i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch); i geisio gwrthdroi'r penderfyniad i ddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yn gyrrff sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifon gwladol.
80. Byddai hyn yn golygu gwrthdroi Polisi Llywodraeth Cymru i leihau nifer y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Yn 2006, cafodd ELWa (CCNC

â chyfrifoldeb am gynllunio, cyllido a hyrwyddo dysgu ôl-16 yng Nghymru) ei ddiddymu a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i AdAS.

81. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy'n gyfrifol am gyllido Addysg Uwch (AU) yng Nghymru. Mae'n dosbarthu cyllid ar gyfer addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn un ar ddeg o Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ac mae'n cyllido cyrsiau Addysg Uwch mewn Sefydliadau Addysg Bellach. Ar hyn o bryd, mae tua 55 o aelodau o staff yn gweithio i Weithrediaeth CCAUC, sy'n cael ei llywodraethu gan Gyngor o hyd at 12 o aelodau, gan gynnwys Cadeirydd a Phrif Weithredwr.
82. Mae Cyngor Cyllido Addysg Bellach ac Uwch yr Alban (SFC) yn un o Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB) Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am gyllido'r ddarpariaeth addysgu a dysgu yn y 37 o golegau yn yr Alban.

#### Costau

83. Ar hyn o bryd, mae costau rhedeg CCAUC yn £2.9 miliwn y flwyddyn.
84. Yn ôl cyfrifon SFC ar gyfer 2011-12, roedd y gwariant ar gostau rhedeg yn £8.277 miliwn.
85. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn i gyd yn gostau ychwanegol. Pe byddai cyngor cyllido yn cael ei sefydlu ar gyfer y sector Addysg Bellach, byddai rhai swyddogaethau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd a byddai costau rhedeg uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn gostwng fel a ganlyn:

Y tîm ansawdd (50% o'r tîm presennol)	£145 mil
Y tîm cyllid (25% o'r tîm presennol)	£208 mil
Y tîm polisi (50% o'r tîm presennol)	£338 mil
Monitro iechyd ariannol (0.5 Cyfwerth ag Amser Llawn)	£28 mil
Cyfalaf (50% o'r tîm presennol)	£212 mil
Y tîm data (50% o'r tîm presennol)	£132 mil
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1.06 miliwn</b>

86. Nid oes unrhyw swyddogaeth archwilio wedi'i chynnwys yn y ffigurau hyn, oherwydd byddai rhaid i'r cyngor cyllido gyflogi person i ymgymryd â'r swyddogaeth archwilio mewnol yn ogystal ag archwilio Sefydliadau Addysg Bellach.
87. Byddai angen i swyddogaeth gwasanaethau corfforaethol y cyngor cyllido ei hun hefyd gynnwys cyllid, AD, marchnata a chaffael. Nid oes gan Lywodraeth Cymru staff dynodedig yn y meysydd hyn, felly ni fyddai unrhyw gyllideb yn cael ei throsglwyddo.



88. Gan hynny, mewn termau net, byddai'r gost o redeg cyngor cyllido (ar sail ffigurau CCAUC gan fod hwnnw'n debycach o ran maint) yn £1.84 miliwn y flwyddyn.

#### *Manteision*

89. Ni ystyrir y byddai sefydlu CCNC i oruchwylio'r modd y caiff Sefydliadau Addysg Bellach eu cyllido yng Nghymru yn cael unrhyw fanteision mewn perthynas ag amcanion y Bil hwn. Mae Sefydliadau Addysg Bellach yn yr Alban, er enghraifft, sy'n cael eu goruchwylio gan gorff sy'n cyfateb i CCNC hefyd wedi cael eu hailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gyrrff sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifon gwladol.

#### *Risgiau*

90. Mae'n hynod annhebygol y byddai ailsefydlu cyngor cyllido ynddo'i hun yn bodloni gofynion y Swyddfa Ystadegau Gwladol i wrthdroi'r penderfyniad i ailddosbarthu Colegau AB yn gyrrff sector cyhoeddus. Mae gan yr Alban gyngor cyllido ond nid yw ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys Colegau Addysg Bellach yn yr Alban.
91. Byddai methu gwrthdroi penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu yn cael effaith negyddol ar gyllideb AdAS a byddai'n golygu na fyddai gan y sector bellach unrhyw gymhelliant i ychwanegu at ffrydiau ariannu drwy droi at ffynonellau heblaw cyllid y llywodraeth, nac ychwaith i reoli'r colegau mewn modd mor effeithlon ag y mae yn ei wneud ar hyn o bryd.

#### Opsiw 3: Cyflwyno Bil Cynulliad

92. Byddai Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn cael ei ddefnyddio i ddiddymu ystod eang o gyfyngiadau a rheolaethau ar Gorfforaethau Addysg Bellach, a'u gosod ar sylfaen gyffelyb i elusennau sy'n gweithredu yn y sector annibynnol/preifat. Byddai hyn yn debyg i'r darpariaethau y mae llywodraeth y DU wedi'u cynnwys yn Neddf Addysg 2011.
93. Byddai'r newidiadau angenrheidiol yn cynnwys peidio â bod mor llym o ran y fframwaith llywodraethu, a gallai colegau ddatblygu eu Hofferynnau ac Erthyglau Llywodraethu eu hunain, diddymu eu hunain ac uno â sefydliadau eraill sy'n cyflenwi addysg heb angen cymeradwyaeth y Gweinidog, neu fenthycu arian heb gymeradwyaeth y Gweinidog.

#### *Costau*

94. Bydd y polisi a'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer cyflawni'r pwerau arfaethedig yn cael eu rheoli gan swyddogion AdAS. O ganlyniad, ni fydd creu'r darpariaethau newydd hyn yn golygu unrhyw gost i Lywodraeth Cymru.

95. Ni fydd gweithredu'r polisïau a ddaw yn sgil creu'r darpariaethau angenrheidiol yn arwain at gostau ychwanegol i Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.

#### *Manteision*

96. Gallai'r ddeddfwriaeth arwain at wrthdroi'r penderfyniad i ddsbarthu yn rhan o'r sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifon gwladol a fydd yn golygu na fydd raid i Lywodraeth Cymru ysgwyddo unrhyw ganlyniadau cyllidebol anffafriol:

*Bron yn arian parod* - ni fyddai unrhyw incwm ychwanegol gan golegau yn cael ei gynnwys yn rhan o incwm Llywodraeth Cymru ac ni fyddai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gan golegau yn dod yn rhan o gronfeydd Llywodraeth Cymru;

*Cyfalaf* - byddai colegau yn gallu cadw eu harian dros ben i ddatblygu cronfeydd i dalu am brosiectau cyfalaf yn y dyfodol ac ni fyddai cyfanswm y gwariant cyfalaf gan unrhyw goleg mewn unrhyw flwyddyn yn cyfrif yn erbyn cyllideb gyfalaf AdAS;

*Nad ydynt yn arian parod* - ni fyddai dibrisiant yn asedau'r sector AB yn cyfrif yn erbyn cyllidebau nad ydynt yn arian parod Llywodraeth Cymru;

*Gwariant a Reolir yn Flynyddol* - ni fyddai unrhyw newid yn niffygion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (staff nad ydynt yn addysgu) yn cyfrif yn erbyn Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol;

*Gofynion Archwilio* - ni fydd unrhyw effaith ar amser staff Llywodraeth Cymru i drin a thrafod y datganiadau ychwanegol y bydd yn ofynnol i golegau eu cyflwyno ac ni fyddai unrhyw gynnydd yn y gost archwilio i golegau.

#### *Risgiau*

97. Na fydd y ddeddfwriaeth yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar Bwyllgor Dosbarthu y Swyddfa Ystadegau Gwladol bod y camau allweddol wedi eu cymryd i sicrhau bod mwy o annibyniaeth yn cael ei roi i golegau AB ac os bydd ceisio gwrthdroi'r penderfyniad i ddsbarthu sefydliadau yn gyrrff sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifon gwladol yn methu.

98. Y lleihad o ran rheolaeth dros Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a fydd yn arwain at fwy o wrthwynebiad gan Undebau sydd o'r farn y bydd rhoi mwy o ryddid i golegau yn caniatáu i golegau:

dynnu'n ôl o raddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a'r trafodaethau presennol i sefydlu telerau ac amodau cenedlaethol;

diddymu eu hunain a throsglwyddo eu hasedau a rhwymedigaethau i gorff arall.

#### **Yr opsiwn a ffefrir**

99. Yr opsiwn a ffeirir yw opsiwn 3 i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r Bil yn nodi'r pwerau allweddol sydd angen eu diwygio i fodloni Pwyllgor Dosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ganiatáu i golegau gael eu dosbarthu yn sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH) unwaith yn rhagor.

## **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - Gwiriadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr o Incwm Aelwydydd**

### **Opsiwn 1: Cyflwyno system bapur**

100. Fel rhan o'r opsiwn hwn, byddai rhaid i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr fabwysiadu dull papur o wirio incwm aelwydydd gan ddefnyddio dogfennau a gyflwynir gan y noddwyr. Mae gan Awdurdodau Lleol sy'n prosesu ceisiadau ar hyn o bryd system bapur ar gyfer gwirio incwm aelwydydd. Ar hyn o bryd, mae costau yn cael eu talu i'r awdurdodau lleol drwy'r grant cymorth referniw ac nid ydynt wedi'u neilltuo. Ni fu'n bosibl amcangyfrif y costau a wariwyd gan awdurdodau lleol ar y gwasanaeth presennol ar gyfer gwirio incwm aelwydydd.

#### *Costau*

101. Amcangyfrifir y byddai gweithredu system bapur ar gyfer gwirio incwm yn golygu y byddai rhaid i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr gyflogi rhagor o staff prosesu a staff Canolfan Gyswilt a byddai'n golygu ysgwyddo costau gohebu uwch.
102. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr wedi cynnig rhai amcangyfrifon lefel uchel o gost yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer system bapur i wirio incwm aelwydydd yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol a'u profiad o redeg gwasanaeth Cyllid Myfyrrwyr Lloegr (SFE):

17,500 o fyfyrrwyr yn cael prawf modd ym Mlwyddyn Academiaidd 14/15

23,500 o noddwyr i gael gwiriadau incwm

Cynnydd yn y galw am wybodaeth ariannol - 52%

Cynnydd yn y gwiriadau sylfaenol a'r gwiriadau eilaidd sydd i'w cynnal

2 dudalen o wybodaeth ariannol yn angenrheidiol fesul cwsmer

Yr wybodaeth bapur ychwanegol sydd angen ei dychwelyd - 50%

Cynnydd yn y ffurflenni PFF papur - 21%

Cynnydd yn y dystiolaeth ariannol fydd yn mynd ar goll

Gohebiaeth i gwsmeriaid – 2 dudalen

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr i ddefnyddio'r post ail ddsbarth.

*Nifer y bobl fydd ei angen ar y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr i brosesu'r wybodaeth*

103. Byddai rhaid i'r cwsmer ddarparu tystiolaeth bapur o incwm yr aelwyd wrth gyflwyno cais a byddai prosesu'r dystiolaeth hon ar bapur wedi hynny yn

golygu newid cyfnod prysuraf y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, a'i hwyhau, o fis Mai i fis Gorffennaf i fis Awst i fis Tachwedd. Byddai hyn yn cael effaith ar nifer y bobl fyddai ei angen i brosesu'r wybodaeth a byddai'n arwain at gynydd o 4.3 aelod o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (mae hyn yn golygu cost o £72,704 y flwyddyn).

#### *Costau gohebu uwch*

104. Disgwylir y byddai gweithredu system bapur ar gyfer gwirio incwm aelwydydd yn golygu costau gohebu uwch gan y bydd angen dychwelyd dogfennau i aelwydydd ac, mewn rhai achosion, gofyn am wybodaeth ychwanegol. Amcangyfrifir mai'r gost ar gyfer hyn fyddai £7,726, a gyfrifwyd fel a ganlyn:
105. Papur, amlenni a chostau postio ar gyfer 11,750 o lythyrau i ddychwelyd gohebiaeth anghywir i noddwyr - £7,375.
106. Papur, amlenni a chostau postio ar gyfer 1,200 o lythyrau i ofyn am dystiolaeth ariannol a hepgorwyd - £351.

#### *Y Ganolfan Gyswllt*

107. Byddai mwy o gyswllt â chwsmeriaid o ganlyniad i'r cynnydd yn yr amser a gymerir i brosesu dogfennau a'r angen i anfon tystiolaeth i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr a'i dychwelyd. Byddai hyn yn effeithio ar nifer y staff fyddai ei angen ar bartneriaid allanol i wneud y gwaith cyswllt hwn yn ystod y flwyddyn. Byddai nifer y galwadau'n amrywio bob mis ond byddai cynnydd yn y galwadau'n gyffredinol ac felly cynnydd o 0.2 yn y staff cyfwerth ag amser llawn (sy'n gyfwerth â chost o £5,939 y flwyddyn ym Mlwyddyn 1).
108. Amcangyfrifir, felly, y byddai'r opsiwn hwn yn costio bron £86,369 y flwyddyn i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Llywodraeth Cymru sy'n talu am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â Chyllid Myfyrrwyr Cymru.

#### *Manteision*

109. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â chynnal system bapur ar gyfer gwirio incwm aelwydydd. Byddai costau rhedeg y gwasanaeth yn cynyddu a byddai cywirdeb system bapur o'i gymharu â chywirdeb system awtomatig yn golygu, fwy na thebyg, y byddai llai o achosion o dwyll yn dod i'r amlwg.

#### *Risgiau*

110. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â system wirio bapur ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yr un â'r risgiau sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â'r systemau papur a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i wirio incwm aelwydydd.

111. Mae cyflwyno proses awtomatig ar gyfer Gwirio Incwm Aelwydydd yn un o amcanion allweddol prosiect Moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. Os na chaiff y pwerau presennol eu diwygio, mae'n debygol na fydd modd cyflawni prif amcan y gwasanaeth ar ei newydd wedd.

## **Opsiwn 2: Cyflwyno Bil Cynulliad (Diwygio'r darpariaethau presennol)**

112. Byddai diwygio'r darpariaethau presennol yn golygu bod modd i Weinidogion Cymru ddefnyddio porth rhannu data i gael gwybodaeth oddi wrth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i weithredu'r rheoliadau mewn perthynas â benthyciadau a grantiau myfyrwyr. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr gyflwyno proses awtomatig ar gyfer Gwirio Incwm Aelwydydd fel rhan o'r broses asesu.
113. Mae'r broses ar gyfer Gwirio Incwm Aelwydydd eisoes yn ei lle ac ar waith yn Lloegr gan y gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Lloegr. Bydd y diwygiad hwn yn rhoi'r hawl cyfreithiol i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r broses wirio a bydd yn golygu bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn gallu defnyddio'r arferion a'r systemau presennol ar gyfer Cymru.

### *Costau*

114. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn defnyddio systemau a phrosesau sydd eisoes ar waith yn Lloegr ac felly ni fydd unrhyw gostau datblygu na chostau gweithredu yn gysylltiedig â'r diwygiadau hyn.
115. Unwaith y byddant ar waith, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi amcangyfrif y byddai'n costio £30,000 y flwyddyn i gynnal y rhan o'r broses sy'n gysylltiedig â Chyllid Myfyrwyr Cymru, a hynny ar sail y rhagdybiaeth gynllunio y byddai angen cynllunio ar gyfer ymdrin â 23,500 o wiriadau incwm noddwyr bob blwyddyn.

### *Manteision*

116. Byddem yn mabwysiadu model cyflawni sefydledig sydd wedi bod yn llwyddiannus i Gyllid Myfyrwyr Lloegr dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn hyderus y gallant weithredu'r system hon ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd.
117. Ni fydd angen i gwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru bostio na chyflwyno dogfennau treth i'r gwasanaeth i'w gwirio ar bapur. Caiff y broses ei chwblhau'n awtomatig ar gyfer y rhan fwyaf o fyfrwyr (tua 76% o achosion), oni bai bod yn rhaid i gwsmeriaid fynd drwy'r broses eithriadau oherwydd nad yw incwm eu haelwyd yn cyfateb i'r wybodaeth yng nghofnodion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn yr achos hwn, byddai'n rhaid darparu dogfennau papur. Felly, mae hyn yn sefydlu proses awtomatig ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr, gan leihau'r amser y mae aelwydydd yn ei dreulio'n gohebu â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr.

118. At hynny, disgwylir y bydd cyflwyno proses awtomatig yn lleihau'r risg o dwyll. Er nad ydym yn gallu mesur yr union gostau, gallwn ragdybio y gallai cyfradd twyll o 1% o dan y system bresennol gostio tua £7 miliwn y flwyddyn i Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar gost cyfartalog cymorth myfyrwyr i Lywodraeth Cymru).

#### *Risgiau*

119. Mae lansiad y system ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru yn 2014 wedi'i ohirio. Mae'n hollbwysig bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gallu defnyddio'r ddolen rhannu data â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi erbyn dechrau mis Chwefror 2014. Bydd hyn yn caniatáu i Gyllid Myfyrwyr Cymru dderbyn ceisiadau oddi wrth fyfyrwyr ar yr un pryd â myfyrwyr o rannau eraill o'r DU.
120. Os na chiaff y Bil hwn Gydsyniad Brenhinol mewn da bryd, mae risg y bydd angen gohirio dyddiad lansiad gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru.

#### **Opsiynau Eraill ar gyfer Rhannu Data**

121. Nid oes opsiynau eraill ar gyfer rhannu data â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid oes unrhyw byrth rhannu gwybodaeth eraill i'w chael mewn deddfwriaeth treth y gellir eu defnyddio i ddarparu'r wybodaeth hon i Weinidogion Cymru.

#### **Yr opsiwn a ffeirir**

122. Yr opsiwn a ffeirir yw defnyddio system Gwirio Incwm Aelwydydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sydd eisoes ar gael i Gyllid Myfyrwyr Lloegr ac sy'n awtomeiddio'r broses. Dyma'r opsiwn mwyaf cost effeithiol sy'n costio tua £30,000 y flwyddyn. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn golygu bod twyll yn llai tebygol o ddigwydd. Byddai'r opsiwn arall, i ddilysu dogfennau incwm aelwydydd ar bapur, yn costio tua £86,000 y flwyddyn.
123. Felly, yr opsiwn a ffeirir yw diwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn caniatáu rhannu data.

#### **ASESIADAU EFFAITH PENODOL**

124. Cwblhawyd cyfres o asesiadau effaith ar y Bil fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Adolygwyd yr asesiadau effaith yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Ceir trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr effeithiau polisi yn yr adroddiad cryno ar y Papur Gwyn. Ni chafodd unrhyw effeithiau gwahaniaethol eu nodi yn sgil yr adolygiad o'r asesiadau effaith nac yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

#### **Yr effaith ar fusnesau bach**

125. Fel rhan o'r broses sgrinio effeithiau polisi ar gyfer y Bil, ystyriwyd yr effaith ar fusnesau bach.

#### **Yr effaith ar y sector gwirfoddol**

126. Fel rhan o'r broses sgrinio effeithiau polisi ar gyfer y Bil, ystyriwyd yr effaith ar y sector gwirfoddol. Ychydig iawn o effaith arall fydd y Bil drafft yn ei chael ar y sector gwirfoddol, os caiff unrhyw effaith o gwbl.

#### **Yr effaith ar ddatblygu cynaliadwy**

127. Fel rhan o'r broses sgrinio effeithiau polisi ar gyfer y Bil, ystyriwyd y pum maes yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru<sup>4</sup>:
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy;
  - Cymdeithas gynaliadwy;
  - Economi gynaliadwy;
  - Amgylchedd gynaliadwy;
  - Lles Cymru.

#### **Asesiad Amgylcheddol Strategol**

128. Nid oes gan y Bil unrhyw oblygiadau i benderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir yn y dyfodol nac i unrhyw ganiatâd cynllunio arall. Felly, nid oes angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol.

#### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

129. Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru'n annog adolygiadau a/neu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fel rhan o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Nid oes unrhyw dystiolaeth y ceir effaith wahaniaethol mewn perthynas â rhyw ac ailbennu rhywedd, crefydd a chred a diffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth neu bartneriaethau sifil.
130. Mae'n ofynnol bod gan Sefydliadau Addysg Bellach bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u bod yn gallu dangos, drwy hunan-asesu a thystiolaeth ategol, eu bod yn gweithredu'r polisiau, yn monitro ac yn cefnogi cyfranogiad gan grwpiau lleiafrifol, ac yn gwerthuso eu hymatebolrwydd eu hunain.
131. Cesglir data am ddyddiad geni, tarddiad ethnig, anabledd a rhyw dysgwyr drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'r Cofnod hwn yn ddibynnol ar hunan-gofnodi gan ddysgwyr ac felly nid yw'n cael ei wirio yn erbyn cofnodion eraill a geir ar ddysgwyr.
132. Ystyriwyd Deddf Hawliau Dynol 1998 fel rhan o'r broses o sgrinio'r asesiad effaith ar gydraddoldeb. Mae'r Bil drafft yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn.
133. Bydd darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar gyfer y ddolen rhannu data ar gyfer Gwirio Incwm Aelwydydd yn sefydlu proses awtomatig i ddisodli'r

broses sydd eisoes ar waith, ac felly nid oes tystiolaeth y bydd effaith wahaniaethol ar unrhyw faes cydraddoldeb yn benodol.

### **Yr Effaith ar yr Gymraeg**

134. Mae amcanion polisi'r Bil yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw risg y bydd y Bil yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg gan ei fod yn ymwneud â fframwaith llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'n ofynnol i bob Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru gael Polisi Iaith Gymraeg ac ni fydd hyn yn newid o dan y Bil.
135. Nid yw cyflenwi gwybodaeth at ddibenion rhannu data â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg oherwydd ein bod yn ceisio sefydlu proses awtomatig ar gyfer proses sydd eisoes ar waith yn awdurdodau lleol Cymru.

### **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

136. Cwblhawyd yr offeryn asesu er mwyn ystyried sut y mae'r CCUHP yn gymwys i'r Bil. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried effaith gweithredu'r CCUHP ar y cynigion. Mae'r cynigion naill ai'n parchu neu'n rhoi mwy o effaith i'r Erthyglau perthnasol yn y Confensiwn.
137. Nid yw cyflenwi gwybodaeth at ddibenion rhannu data â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw effaith ar y CCUHP oherwydd ein bod yn ceisio sefydlu proses awtomatig i ddisodli proses sydd eisoes ar waith yn awdurdodau lleol Cymru.

### **Asesu'r Effaith ar Iechyd**

138. Ni fydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol na negyddol sylweddol ar iechyd dynol, ac felly nid oes angen asesiad llawn o'r effaith ar iechyd.

### **Tlodi**

139. Dyma'r tri amcan strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant:
  - a) lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd nad ydynt mewn gwaith;
  - b) gwella sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel er mwyn iddynt allu cael swyddi da;
  - c) lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn perthynas â chanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.
140. Cwblhawyd offeryn asesu'r CCUHP er mwyn ystyried sut y mae'r Confensiwn yn berthnasol i'r Bil. Mae hyn yn cynnwys yr erthyglau sy'n ymwneud â thlodi plant, nad yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r cynigion yn y Bil.



### **Cymorth Gwladwriaethol**

141. Nid yw'r Bil yn ymwneud â dyrannu cyllid cyhoeddus. Felly, nid yw'r rheolau ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol yn berthnasol.

### **Rhestr wirio ar gyfer prawfesur polisiau gwledig**

142. Nid yw'r Bil yn debygol o gael effaith wahaniaethol mewn ardaloedd gwledig. Felly, nid oes angen cynnal asesiad effaith llawn.

### **Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd**

143. Gofynnwyd am gyngor oddi wrth Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru ynghylch y darpariaethau yn y Bil. Dywedodd y Swyddog Diogelu Data nad yw Gweinidogion Cymru yn cael eu hystyried yn Rheolwyr Data ar gyfer y ddolen rhannu data â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac nid yw'r ddarpariaeth Addysg Bellach yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion. Felly, nid oes angen cynnal asesiad effaith llawn ar gyfer y Bil na chynghor ar gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

## **9. Aseiad o'r Gystadleuaeth**

144. Cymhwyswyd prawf hidlo'r gystadleuaeth, a dangosodd y prawf hwnnw nad oes unrhyw bryderon mewn perthynas â'r gystadleuaeth.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

145. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth flwyddyn ar ôl dechrau ei gweithredu gan gasglu sylwadau rhanddeiliaid ar ei heffaith.
146. Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys cyfarfodydd, cynadleddau a gohebiaeth. Bydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn parhau i gynnal deialog am lywodraethu â rhanddeiliaid.
147. Caiff y gwasanaeth ei reoli drwy adroddiadau perfformiad misol oddi wrth y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Bydd unrhyw faterion o ddydd i ddydd yn cael eu trafod â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithrediadau a gynhelir naill ai bob pythefnos neu bob wythnos yn ystod y cyfnod prysuraf (rhwng Mai a Tachwedd). Os na fydd modd datrys y mater er boddhad Llywodraeth Cymru, caiff ei drosglwyddo i sylw Bwrdd Rhaglen Addysg Bellach/Cyllid Myfyrrwyr neu i Brif Fwrdd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, fel y bo'n briodol.

## **BIL ADDYSG BELLACH AC UWCH (LLYWODRAETHU A GWYBODAETH) (CYMRU)**

### **NODIADAU ESBONIADOL**

#### **Cyflwyniad**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Ebrill 2013. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.
2. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil, ac ni fwriedir iddynt fod felly. Pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol, ni roddir unrhyw esboniad na sylw pellach.
3. Mae'r pwerau i wneud y Bil i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud darpariaeth ar gyfer y Bil ac mewn cysylltiad ag ef, yn rhinwedd Atodlen 7, paragraff 5 (Addysg a hyfforddiant).

#### **Rhestr o dermau a byrfoddau a ddefnyddir yn y Nodiadau Esboniadol**

4. Defnyddir y termau a'r byrfoddau a ganlyn yn y Nodiadau Esboniadol.

**CAB** – corfforaeth addysg bellach  
**ONS** – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol  
**SAB** – sefydliad addysg bellach

#### **Y cefndir**

5. Bydd y Bil yn lleihau rheolaethau Gweinidogion Cymru dros Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yng Nghymru. Ym mis Hydref 2010 dosbarthwyd SABau fel rhan o lywodraeth ganolog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) at ddibenion cyfrifon gwladol. Polisi Llywodraeth Cymru yw ceisio gwrthdroi penderfyniad ONS fel bo SABau unwaith eto yn cael eu dosbarthu fel rhan o'r sector preifat at ddibenion cyfrifon gwladol. Wrth ystyried sut i ddosbarthu sefydliad, mae ONS yn ystyried amryw ddangosyddion rheoli. Bydd y diwygiadau a wneir gan y Bil yn lleihau lefel y rheolaeth y bydd Gweinidogion Cymru yn ei harfer dros SABau gyda'r nod o'u cael wedi eu hailddosbarthu.
6. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn moderneiddio'r ffordd y caiff cyllid myfyrwyr ei ddarparu drwy wneud y broses yn fwy effeithlon. Bydd y Bil yn cyfrannu at hyn drwy sefydlu sail gyfreithiol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru (ac eraill sy'n gweithredu ar ran

Gweinidogion Cymru, neu sy'n arfer eu swyddogaethau) mewn cysylltiad â benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr.

7. Cyhoeddwyd Papur Gwyn yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar 2 Gorffennaf 2012 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn ym mis Mawrth 2013.

### Crynodeb o'r Bil

8. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2002. Mae hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.
9. Mae adrannau 1 i 8 o'r Bil yn gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethu a rheoleiddio cyfredol SABau yng Nghymru. Mae SABau yng Nghymru yn cynnwys Corfforaethau Addysg Bellach (CABau) a sefydlwyd o dan adran 15 neu 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a sefydliadau dynodedig sy'n sefydliadau sydd wedi eu dynodi drwy orchymyn o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ymhlith y newidiadau sydd wedi eu gwneud gan y Bil mae:

rhoi'r p e r i SAB addasu neu ddisodli ei offeryn ac erthyglau llywodraethu yn amodol ar gynnwys gofynion sylfaenol yn yr offeryn a'r erthyglau llywodraethu;

rhoi'r p e r i CAB benderfynu ei diddymu ei hun, a'r p e r i drosglwyddo ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i gorff arall cyn i'r diddymiad gael effaith (yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru);

rhoi'r p e r i CAB fenthycia heb gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw;

dileu p e r Gweinidogion Cymru i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu;

gallu CAB i weithredu drwy drefniant is-gorff (megis cwmni cyfyngedig neu sefydliad elusennol corfforedig) heb gydsyniad Gweinidogion Cymru; ac

y p e r i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau ymyrryd, gyfarwyddo corff llywodraethu CAB i benderfynu ei diddymu ei hun.

10. Bydd y Bil hefyd yn gwneud newidiadau eraill mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i SABau; diddymu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gael polisi ymyrryd; diddymu'r ddyletswydd ar SABau i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr; a dileu p e r Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i gyfyngu ar ddarpariaeth addysg uwch mewn SABau.

11. Mae adran 9 o'r Bil yn diwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn ychwanegu Gweinidogion Cymru a'r personau hynny sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru neu sy'n arfer swyddogaethau ar eu rhan, fel personau y caiff Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth iddynt mewn cysylltiad â'r cynllun cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru.

### **SYLWEBAETH AR ADRANNAU O'R BIL**

#### **Adran 1 – Benthycu a buddsoddi gan gorfforaethau addysg bellach**

12. Mae adran 19 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth i CABau gael amryw bwerau atodol. Effaith y diwygiadau y mae'r adran hon yn eu gwneud i adran 19 yw dileu'r gofyniad i CABau yng Nghymru gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn iddynt arfer pwerau atodol penodol. Y pwerau dan sylw yw eu pwerau i fenthycu arian, i ffurfio cwmni neu i fuddsoddi mewn cwmni, neu i ddod yn aelod o sefydliad elusennol corfforedig at ddibenion cynnal sefydliad addysgol.

#### **Adran 2 – Offeryn ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg bellach**

13. Mae'r adran hon yn diwygio adran 20 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau gydymffurfio â gofynion penodol. Mae'n cyflwyno Atodlen 1 (sy'n disodli Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) i wneud darpariaeth newydd, sy'n llai rhagnodedig, ynghylch cynnwys offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau yng Nghymru.
14. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno adran newydd yn lle'r adran 22 gyfredol o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Effaith hyn yw dileu p er Gweinidogion Cymru i addasu, dirymu neu amnewid offeryn ac erthyglau llywodraethu CABau yng Nghymru a rhoi'r p er i CABau yng Nghymru addasu neu amnewid eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu.

#### **Atodlen 1 – Offeryn ac erthyglau llywodraethu**

15. Mae Atodlen 1 yn disodli Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'n nodi'r elfennau hanfodol y mae'n ofynnol i SABau eu cynnwys yn eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu. Bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i SABau nodi, er enghraifft, rolau a chyfrifoldebau personél allweddol a sut y gall SAB newid ei offeryn a'i erthyglau llywodraethu. Bydd rhaid i gyrff llywodraethu SABau gynnwys staff a myfyrwyr fel llywodraethwyr.

#### **Adran 3 – Diddymu corfforaethau addysg bellach**

16. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â diddymu CABau drwy roi adrannau 27 i 27B yn lle adrannau 27 i 27C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Effaith hyn yw dileu p er Gweinidogion Cymru i ddiddymu CABau a throsglwyddo eu heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i ddarparwr addysg arall. Yn lle hynny, bydd gan CABau y p er i'w diddymu eu hunain, cyhyd â'u bod wedi cyhoeddi'r cynigion a chynnal ymgynghoriad llawn gan ystyried barn y bobl yr ymgynghorwyd â hwy, yn unol â rheoliadau. Mae hefyd yn rhoi'r gallu i CABau drosglwyddo eu heiddo, eu hawliau neu eu

rhwymedigaethau i gorff arall at ddibenion addysgol, a chyda chydysniad y corff hwnnw. Caiff y math o gorff ei bennu mewn rheoliadau.

**Adran 4 – Sefydliadau dynodedig: offeryn ac erthyglau llywodraethu**

17. Mae adrannau 29B a 29C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gwneud darpariaeth ynghylch offerynnau ac erthyglau sefydliadau dynodedig (ac eithrio'r rheini a gynhelir gan gwmni neu sy'n esempt o dan y gorchymyn dynodi). Mae'r adran hon yn rhoi adran 29B newydd yn lle'r adrannau 29B a 29C cyfredol. Effaith hyn yw dileu'r gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i sefydliadau dynodedig allu addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu a dileu'r Gweinidogion Cymru i addasu a disodli erthyglau ac offerynnau llywodraethu. Yn lle hynny, bydd gan sefydliadau dynodedig yng Nghymru y p e r i addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu eu hunain. Bydd gofynion yr Atodlen 4 newydd i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (fel y'i disodlwyd gan Atodlen 1 i'r Bil hwn) yn gymwys i'r offerynnau a'r erthyglau llywodraethu.
18. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adrannau 29A ac 31 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel nad oes rhaid mwyach i offerynnau ac erthyglau llywodraethu cyntaf sefydliadau dynodedig ar ôl eu dynodi gynnwys darpariaeth ynghylch aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 5 – Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â sefydliadau o fewn y sector addysg bellach**

19. Mae'r adran hon yn diwygio adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn SAB (drwy wneud newidiadau i'r corff llywodraethu neu drwy ddyroddi cyfarwyddiadau), os ydynt o'r farn bod y SAB yn cael ei gamreoli neu'n methu mewn rhyw ffordd arall. Mae'r diwygiad yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau ymyrryd, yn gallu cyfarwyddo corff llywodraethu CAB i ddefnyddio ei phwerau newydd i'w diddymu ei hun. Os bydd hyn yn digwydd, caiff y CAB ei thrin fel pe bai wedi dilyn y gweithdrefnau cyhoeddi ac ymgynghori a nodir yn adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (fel y'i hamnewidiwyd gan adran 3 o'r Bil).
20. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu adran 57A o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio, cyhoeddi ac adolygu datganiad polisi mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau ymyrryd.

**Adran 6 – Diddymu dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio â chyfarwyddiadau**

21. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 33J a 33L o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac adrannau 116I a 116K o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â chynllunio a darparu cwricwla lleol yng Nghymru, sef cwricwla awdurdod lleol cyfan ar gyfer disgyblion 14-18 oed a sefydlir gan awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru. Effaith y diwygiadau yw dileu'r gofyniad i SABau gydymffurfio â chyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllunio cwricwla lleol a chydweithio i ddarparu cwricwla lleol. Fodd bynnag, rhaid i SABau barhau i roi sylw i ganllawiau a

roddir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chynllunio a darparu cwricwla lleol.

**Adran 7 – Diddymu p er i reoleiddio cyrsiau addysg uwch yn y sector addysg bellach**

22. Mae'r adran hon yn diddymu adran 139 o Ddeddf Addysg 2002 fel na chaiff Gweinidogion Cymru bellach wneud rheoliadau sy'n gwahardd SABau rhag darparu cyrsiau addysg uwch heb eu cymeradwyaeth ac sy'n rheoleiddio niferoedd a chategoriâu myfyrwyr ar gyrsiau o'r fath.

**Adran 8 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

23. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i amryw Ddeddfau a Gorchymyn a Mesur, o ganlyniad i adrannau eraill yn y Bil hwn.

**Adran 9 – Cyflenwi gwybodaeth mewn cysylltiad â benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr**

24. Mae rhan 2 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch. Mae adran 24 o'r Ddeddf honno yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i roi gwybodaeth mewn perthynas â gweithrediad y cynllun benthyciadau i fyfyrwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon (ac i'r rheini y maent wedi trosglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau penodol iddynt), ond nid i Weinidogion Cymru.
25. Mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a gallant ddirprwyo'r swyddogaethau hynny o dan adran 23 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (e.e. i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr).
26. Yn absenoldeb sail gyfreithiol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth o'r fath i Weinidogion Cymru, rhaid i ymgeiswyr am gymorth i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o incwm y cartref wrth wneud cais am gymorth i fyfyrwyr. Nid yw'r trefniant cyfredol yn caniatáu i dystiolaeth o incwm y cartref gael ei wirio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
27. Mae'r adran hon yn diwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn ychwanegu Gweinidogion Cymru a'r personau neu'r cyrff hynny sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru neu sy'n arfer swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr ar eu rhan, fel personau y gall Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyflenwi gwybodaeth iddynt. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyflenwi gwybodaeth o dan y ddarpariaeth hon ar incwm y cartref fel y bydd y rheini sy'n cael yr wybodaeth yn gallu gwirio ffigurau a ddarperir mewn ceisiadau am gymorth ariannol sy'n dibynnu ar brawf modd heb fod angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol.
28. Mae'r adran hon hefyd yn estyn adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel bo p er Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i rannu gwybodaeth yn ymwneud â grantiau a wneir gan Weinidogion Cymru yn ogystal â benthyciadau.